

**Adroddiad i:** Y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau

**Dyddiad y Cyfarfod:** 14 Mawrth 2013

**Aelod Arweiniol / Swyddog:** Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Gofal  
Cymdeithasol, Oedolion a Phlant / Pennaeth  
Gwasanaethau Oedolion a Busnes

**Awdur yr Adroddiad:** Rheolwr Gwasanaeth Busnes

**Teitl:** Ffioedd Gofal Preswyl 2013 / 14

---

## **1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?**

Mae'r adroddiad yn ddiweddariad o'r Fethodoleg Gosod Ffioedd Cartrefi Gofal Rhanbarthol a'r effaith ar gostau i'r Awdurdod.

## **2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

Hysbysu'r Aelodau am y datblygiadau rhanbarthol ac effaith defnyddio'r fethodoleg ar gostau am 2013 / 14.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

Fod yr Aelodau'n ystyried yr adroddiad, yn cyflwyno sylwadau ac yn dal i gefnogi'r dull rhanbarthol o osod ffioedd fel y cytunwyd gan y Cabinet ym mis Chwefror 2012.

## **4. Manylion yr adroddiad**

- 4.1 Y llynedd, cyflwynwyd adroddiad manwl iawn i'r Pwyllgor Archwilio yn egluro'r fethodoleg newydd, y broses a ddilynwyd a'i heffeithiau ar gostau. Yn ystod y misoedd diweddar, ystyriwyd y fethodoleg ymhellach ac ychwanegwyd cynnydd chwyddiant at gydrannau'r ffioedd. Mae'r cynnydd yn amrywio rhwng 1.8% ar gyfer cyflogau, er enghraifft, a 9% ar gyfer gostau ynni. Ar gyfartaledd bydd y cynnydd mewn ffioedd tua 2.4%.
- 4.2 Gwnaed y gwaith yma gan dîm o Swyddogion Cyllid o Gynghorau Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Maen nhw wedi ystyried chwyddiant ac wedi cyfeirio at y cais blyneddol o'r Fforwm Gofal. Maen nhw hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth unigol yn eu hawdurdodau i gyfrifo effaith y cynnydd mewn costau ar ffioedd ac effaith hynny ar gyllidebau.
- 4.3 Mae manylion yr effaith ar ffioedd safonol i'w gweld yn y tabl isod. Nid yw'r ffioedd ar gyfer Cartrefi Nyrsio'n cynnwys cyfraniad y Gwasanaeth Iechyd Gwladol sydd, ar hyn o bryd, yn £120.56 yr wythnos.

CATEGORI	2012/13	2013/14
Trigiannol	£439.96	£450.51
Trigiannol Henoed Bregus eu Meddwl	£481.91	£493.22
Nyrsio	£494.17	£505.70
Nyrsio Henoed Bregus	£517.74	£529.69

<b>eu Meddwl</b>		
------------------	--	--

- 4.4 Ar hyn o bryd mae 420 o bobl yn byw mewn cartrefi gofal ac yn talu'r prisiau safonol. Yn ogystal, mae 90 o bobl yn talu prisiau ansafonol oherwydd trefniadau hanesyddol neu fod llawer iawn o anghenion.
- 4.5 Mae llai o bobl mewn cartrefi gofal wrth i'r Cyngor ddal i lwyddo i gynnig darpariaeth amgen yn y gymuned. Ar 31 Mawrth 2012 roedd 544 o bobl ac erbyn 1 Ebrill 2013, rhagwelir y bydd 500 o bobl.

## **5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Drwy sicrhau bod y ffioedd rydym yn eu talu'n cynnwys costau llawn darparu gwasanaethau o ansawdd sy'n cefnogi pobl fregus yn ein cymuned. Mae hefyd yn sicrhau fod staff sy'n cael eu cyflogi yn y sector yn cael eu talu'n briodol am y gwaith y maen nhw'n ei wneud a thrwy hynny'n cefnogi'r economi leol.

## **6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae costau cynnal 510 o bobl mewn cartrefi gofal yn £14.3 miliwn y flwyddyn. Yn seiliedig ar gyfradd lenwi bresennol mewn cartrefi gofal, byddai cynnydd mewn ffioedd o 2.4%, ar gyfartaledd, £343,000. Fodd bynnag, byddai'r rhagolwg o 500 o bobl yn cynhyrchu cynnydd llai o £56,000. Gellid dygymod â hyn drwy'r codiad chwyddiant sydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion .

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a wnaed ar y penderfyniad? Dylid atodi'r templed Asesiad Effaith Cydraddoldeb fel atodiad wrth yr adroddiad**

Does dim Effaith Cydraddoldeb mewn perthynas â'r fethodoleg hon o gyfrifo Ffioedd Cartrefi Gofal, gweler y ddogfen ynghlwm (Atodiad 1). Gellir newid y ffioedd safonol sy'n cael eu gosod gan y broses hon yn rhwydd i ystyried anghenion unigolion neu gostau ychwanegol penodol cartref gofal neilltuoel sy'n cyfarfod â'r anghenion hynny.

## **8. Pa ymgynghori a wnaed?**

Mae cynrychiolwyr o Gynghorau Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint wedi gweithio gyda'i gilydd ar y broses ffioedd ac wedi ymgynghori ag Uwch Swyddog Polisi Fforwm Gofal Cymru. Mae'r fethodoleg wedi'i chytuno hefyd gyda Chyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Sir Gwynedd. Mae Cyngor Sir Conwy ar hyn o bryd â rhan yn y gwaith ac yn ystyried mabwysiadu'r fethodoleg.

Bydd perchnogion a rheolwyr cartrefi gofal yn cael gwahoddiad i gyfarfodydd unigol yn ystod mis Mawrth i sicrhau fod y ffioedd hyn yn cyfarfod â'u costau. Bydd y llythyrau'n a fydd yn cael eu hanfon at ddarparwyr hefyd yn cynnig ystyried cyfrifon wedi'u harchwilio sy'n dangos gwariant uwch nag a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau.

Cyflwynwyd y fethodoleg i'r Pwyllgor Archwilio ac i'r Cabinet ym mis Chwefror 2012 a chafwyd eu cytundeb pryd hynny.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Cyrhaeddwyd at y cynnydd a gynigir yn y ffioedd ar ôl dilyn methodoleg resymol. Mae'r model a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r ffioedd wedi ystyried nifer o ffactorau ac wedi cydnabod y meysydd ble mae costau wedi cynyddu. Mae'n bwysig iawn fod darpariaethau cymunedol amgen a dewisiadau gofal ychwanegol yn dal i gael eu datblygu er mwyn ceisio lleihau'r ddibyniaeth ar ddarpariaeth gofal preswyl.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

- 10.1 Mae yna risg y bydd mwy o bobl angen gofal preswyl nag a gynlluniwyd ar eu cyfer ond mae'r gwasanaethau ataliol ac ail alluogi'n dal i leihau dibyniaeth pobl ar gefnogaeth ddwys.
- 10.2 Mae yna risg hefyd y bydd cartrefi gofal unigol yn cyflwyno cyfrifon wedi'u harchwilio sy'n dangos fod gwariant cymwys yn uwch na'r ffioedd. Gellir lliniaru hynny drwy ddefnyddio'r fethodoleg a gytunwyd gyda Fforwm Gofal Cymru.

## **11. Yr Hawl i Benderfynu**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllaw comisiynu statudol i Awdurdodau Lleol o dan Adran 7 Deddf Llywodraeth Leol. Effaith hynny yw bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol ystyried yr holl gostau cyfreithlon gwasanaethau darparwydd wrth osod ffioedd a hefyd egluro hynny'n gwbl glir a rhesymol.

Erthygl 6 o Gyfansoddiad y Cyngor.

### **Swyddog Cyswllt:**

Rheolwr Gwasanaeth Busnes

Ffôn : 01824 706556